Mae aelod o bwyllgor y papur bro'n paratoi hysbyseb i ddenu pobl i ddod i weithio ar y papur. Mae angen darllen yr hysbyseb yn ofalus gan fod ynddi nifer o wallau iaith a bylchau.

# PAPUR Y FRO

Yn eisiau

**Grwp o bobl i weithio ar Dudalen yr Ifanc**

**Beth:** Mae papurau bro ar gael ar hyd a lled Cymru. Maen nhw'n rhoi newyddion i bobl am yr hyn sy'n digwydd yn lleol yn ogystal â rhoi hanesion diddorol am yr ardal ac am y cymeriadau syn byw yno. Maen nhw'n wych ar gyfer tynnu sylw at ddigwyddiadau lleol hefyd.

Mae pwyllgor Papur y Fro yn awyddus i greu tudalen liwgar, fywiog ar gyfer pobl ifanc ac felly rydyn ni'n ……………….. grŵp o bobl i weithio ar y dudalen hon.

**Rhaid medru:**

- mynd ar ôl stori
- ysgrifennu'n dda yn Cymraeg
- defnyddio cyfrifiadur.

Swyddi gwirfoddol fydd y rhain, ond byddan nhw'n cynnig cyfleoedd i bobl ddangos eu bod nhw'n gallu gweithio fel aelodau o dîm a gweithio'n annibynnol yn ogystal â datrys problemau. Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, bydd mynd i gyfarfodydd y pwyllgor golygu a chasglu straeon yn gyfle i ddod i nabod pobl eraill ac i wneud gwaith gwerth chweil yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth, anfonwn e-bost at:
lisa@papuryfro.org

Beth ………………?